| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD** | 18 Ionawr 2024 |
| **TEITL** | ADOLYGU TREFNIADAU CRAFFU. |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y gwaith adolygu manwl ac argymhelliad y Fforwm Craffu, gan wneud argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 07/03/2024 |
| **AWDUR** | Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth<br>Vera Jones, Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**1.** Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol mewn lle. Cynhaliwyd adolygiad o'r trefniadau craffu cyfredol yn sgil adroddiad Archwilio Cymru. Cyflwynir gwybodaeth o'r holl drafodaethau sydd wedi eu cynnal ynghyd â barn y Fforwm Craffu ar y ffordd ymlaen, sef y dylid parhau gyda'r trefniadau craffu cyfredol.

2. Noder fod yr adroddiad isod yn canolbwyntio ar y trefniadau craffu yn benodol. Mae materion eraill sy'n cyd-redeg ac yn cynorthwyo'r drefn craffu yn cael sylw ar wahân gan y Prif Weithredwr, materion megis:

- Trefniadau herio ac adrodd ar berfformiad
- Trefniadau cyflwyno gwybodaeth a briffio (ee i'r Fforymau Ardal)

(Gweler **Atodiad A**)

<u>Sail Adolygu</u>

3. Addawyd adolygu llwyth gwaith y pwyllgorau yn sgil penderfyniad y Cyngor Llawn ym Mehefin 2022 (gweler pwynt 4 isod). Penderfynwyd mai synhwyrol fyddai adolygu llwyth gwaith y gwahanol bwyllgorau ar yr un pryd ag ystyried y gwelliannau i'n trefniadau craffu yn dilyn derbyn adroddiad Archwilio Cymru (gweler 7 isod).

<u>Cefndir</u>

4. Yn sgil gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 daeth yn glir nad oedd modd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio barhau i graffu materion corfforaethol. Ar sail argymhelliad y Fforwm Craffu, penderfyniad y Cyngor llawn ym Mehefin 2022 oedd rhoi'r materion corfforaethol yn un o'r tri pwyllgor craffu oedd eisoes yn bodoli, gan adnabod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi fel y lleoliad gorau.

5. Daethpwyd i'r casgliad uchod ar sail pwysau gwaith y tri phwyllgor craffu yn y cyfnod hyd Mai 2022 a bod rhai o'r eitemau a graffwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2021/22, sef Prentisiaethau a Chadw'r Budd yn Lleol, yn clymu gyda materion addysg ac economi. Argymhellodd aelodau'r Fforwm Craffu bod y trefniant yn cael ei adolygu ar ôl cyfnod o 18 mis o weithredu, cyfnod digonol i faterion sefydlogi yn dilyn yr etholiad. Mae cylch gorchwyl cyfredol y pwyllgorau

craffu yn dilyn penderfyniad y Cyngor llawn ym mis Mehefin 2022, i'w weld yn **Atodiad B**. Amlygir yn y ddogfen newidiadau sydd i'w gwneud er mwyn adlewyrchu maes gwaith y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn newidiadau diweddar.

6. Roedd arweiniad clir yn 2022 i beidio â gwneud newid 'mawr' i'r trefniadau craffu gan mai hwn oedd y trydydd newid o fewn cyfnod byr. Mae'r tabl isod yn dangos y newidiadau eraill eithaf diweddar i'r trefniadau craffu.

| | |
|---|---|
| **02/03/2017** | |
| Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Ddydd Iau, 2 Mawrth, 2017, 1.00 y.h. (llyw.cymru) | |
| Adolygiad llawn o drefniadau craffu Gwynedd yn sgil adroddiad beirniadol gan Archwilio Cymru.<br>Ystyried dwy opsiwn – 3 phwyllgor craffu, neu 1 prif bwyllgor craffu. | |
| PENDERFYNIAD: | 3 Phwyllgor Craffu.<br>Sefydlu Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, Pwyllgor Craffu Gofal a Phwyllgor Craffu Cymunedau, gydag elfennau corfforaethol i gael eu craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Dadgomisiynu Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (oedd yn edrych ar faes oedolion, pobl hŷn, teuluoedd, plant a phobl ifanc, addysg, llwybr i economi ac iechyd) a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol (oedd yn craffu Strategaeth Gorfforaethol, Partneriaethau, Ymgysylltu, Trawsnewid busnes, effeithlonrwydd gwasanaethau, cytundeb canlyniadau, gweithlu, Gofal Cwsmer) |
| Rhesymeg: | Cysoni llwyth gwaith yr holl bwyllgorau craffu. |
| **19/12/2019** | |
| Rhaglen ar gyfer Y Cyngor ar Ddydd Iau, 19 Rhagfyr, 2019, 1.00 y.h. (llyw.cymru) | |
| Adolygiad llawn o drefniadau craffu Gwynedd.<br>Adnabod 'pwrpas' craffu fel bod dealltwriaeth gan bawb o rôl craffu.<br>Ystyried tair opsiwn (3 phwyllgor craffu, un prif bwyllgor craffu, dau bwyllgor craffu) | |
| PENDERFYNIAD: | 3 Phwyllgor Craffu gydag elfennau corfforaethol i barhau i gael eu craffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>(Pwyllgorau Craffu Cymunedau, Addysg ac Economi, Gofal – gyda materion Tai ac Eiddo i'w craffu gan y pwyllgor gofal). |
| Rhesymeg: | Ceisio sicrhau amser digonol i graffu pob eitem sydd angen ei chraffu, a sicrhau rôl i bob aelod mainc gefn trwy'r trefniadau craffu. |

Archwilio Cymru

7. Bu i Archwilio Cymru gynnal adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd craffu yng Nghyngor Gwynedd yn ystod misoedd cyntaf 2023. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ddiwedd Medi 2023. (Cyflwynwyd copi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 12 Hydref, 2023).

8. Mae'r adroddiad a dderbyniwyd yn adroddiad calonogol, yn cydnabod y newidiadau sydd wedi eu gwneud dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn cryfhau ein trefniadau craffu a rhoi statws uwch i graffu yng Ngwynedd.

9. Ffurfiwyd argymhellion i wella gan Archwilio Cymru, a gafodd eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Hydref, 2023 er mwyn i'r Pwyllgor fod yn fodlon bod trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau bod cynigion gwella sydd yn codi o archwiliadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

10. Yn ystod y drafodaeth nodwyd "yr angen i ystyried trefn fel y gall gwaith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fwydo i mewn i'r drefn craffu". Noder fod rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn un i graffu risgiau, trefniadau llywodraethu a pherfformiad corfforaethol y Cyngor tra bo rôl y Pwyllgorau Craffu i graffu ansawdd a pherfformiad cyffredinol meysydd penodol a pholisïau'r Cyngor. Os oes risg mewn maes penodol yn amlygu mae trefn mewn lle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfeirio materion i'r pwyllgor craffu perthnasol er mwyn i'r pwyllgor roi ystyriaeth i graffu'r mater mewn manylder yn ddibynnol ar eu rhaglen waith.

Ymgynghori

11. Rhoddwyd cyfle i Aelodau a swyddogion roi mewnbwn i'r adolygiad. Cynhaliwyd dau weithdy i gynghorwyr ar 20/10/2023 a 10/11/2023. Bu i 23 Aelod fynychu.

12. Yn y gweithdai bu cyfle i gasglu barn y Cynghorwyr ynghylch y lleoliad mwyaf addas i graffu materion corfforaethol, unrhyw sylwadau ar y camau gweithredu yn sgil adroddiad Archwilio Cymru ac unrhyw sylwadau/materion eraill sydd angen sylw fel rhan o'r adolygiad.

Lleoliad mwyaf addas ar gyfer craffu materion corfforaethol

13. Gweler y negeseuon yn deillio o'r gweithdai wrth drafod y lleoliad mwyaf addas ar gyfer craffu'r materion corfforaethol:

- Nid oedd cyfeiriad clir yn deillio o'r gweithdai ynghylch 'cartref' materion corfforaethol na chyfeiriad clir i'r trefniadau craffu i'r dyfodol
- Yn gyffredinol roedd ymdeimlad fod llwyth gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn rhy drwm ac y gellid symud unai'r materion corfforaethol ac/neu'r materion economi at bwyllgor arall.
- Rhoddwyd sylwadau mai'r Pwyllgor Craffu Cymunedau oedd y lleoliad mwyaf addas ar gyfer yr elfennau hyn

- Ychwanegwyd y gellid creu pwyllgor ychwanegol (4ydd pwyllgor i'r materion rheini (economi a chorfforaethol) gan adael y materion addysg mewn pwyllgor craffu eu hunain
- Nid oedd pawb yn cydweld â hyn ac nid yw'r data hyd yma o ran nifer eitemau a graffwyd yn cefnogi pwysau ychwanegol ar un pwyllgor.
- Roedd un aelod yn galw am 1 prif bwyllgor craffu a mwy o ymchwiliadau
- Roedd rhai yn galw am 4 (neu 5) pwyllgor craffu a mwy o ymchwiliadau
- Roedd rhai yn nodi bod y trefniadau cyfredol yn gywir a bod profiad y gorffennol yn dangos nad oedd digon o faterion i gynnal pwyllgor arall dros gyfnod y Cyngor.

<u>Materion yn codi o gamau gweithredu yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru</u>

14. Yr ail gategori o ran sylwadau oedd materion yn codi o'r camau gweithredu yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru. Mae sylwadau penodol wedi eu cyflwyno y byddwn yn gweithredu arnynt fel rhan o'r rhaglen waith. Gweler **Atodiad C**.

<u>Ystyriaethau eraill</u>

15. Yn ychwanegol cododd y materion a ganlyn o'r gweithdai craffu a thrafodaethau cychwynnol gyda'r Tîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Adran:

- Mae rhwystredigaeth a disgwyliadau afrealistig
    - gan Gynghorwyr craffu am yr hyn sy'n bosib ei gyflawni o fewn amserlen byr ac adnoddau cyfyngedig (adnoddau adrannau, adnoddau staff craffu ac amser Cynghorwyr hefyd) ac
    - ar faint y gall y Cynghorwyr craffu ei gyflawni a'i herio mewn 5 cyfarfod y flwyddyn, gan gofio fod nifer yn cydbwyso gyrfa gyda'u rôl fel Cynghorydd ac felly ddim am wybod cymaint am y datblygiadau o fewn pob maes o'r Cyngor ag y mae Aelodau Cabinet

- Mae rhywfaint o gam-ddealltwriaeth ynghylch rôl craffu –
    - Er y gall Pwyllgor Craffu gyfeirio mater i sylw penodol y Cabinet neu alw penderfyniad i mewn, cyflwyno argymhellion i'w <u>hystyried</u> gan yr Aelod Cabinet yw rôl arferol craffu - nid oes rheidrwydd i'r Aelod Cabinet dderbyn yr argymhellion, ac nid oes rhaid i bob argymhelliad sy'n deillio o Graffu gael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet.
    - Pan fo penderfyniad y pwyllgor craffu yn nodi "Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau" nid yw'n golygu iddo gael ei dderbyn er mwyn cyflwyno gwybodaeth, ac na fu her a sylwadau penodol i'r Aelod Cabinet eu hystyried.

- Mae lle i Aelodau Craffu greu argymhellion cryfach ar rai eitemau er mwyn sicrhau bod Aelod Cabinet yn rhoi ystyriaeth i bwynt(iau) penodol ac yn adrodd yn ôl ar hynny yn amserol

- Mae blaenoriaethu'r materion cywir i'w craffu yn her – yn arbennig ar gychwyn tymor y Cyngor (ac fe welir hyn ar gychwyn pob tymor Cyngor newydd)

- Mae'n rhaid ystyried y datblygiadau ar gyfer yr elfen perfformiad a'r berthynas gyda chraffu (boed yn ffurfiol yn y pwyllgorau neu beidio) fel rhan o'r datblygiadau – mae'n gam gweithredu sydd wedi ei nodi.

- Adnabuwyd problem gydag argaeledd Aelodau i fod yn aros mewn pwyllgor trwy'r dydd a rhwystredigaeth fod rhai yn gwasanaethu ar ddau bwyllgor craffu a rhai cynghorwyr ddim ar bwyllgor craffu o gwbl (er bod y cyfle yno). Mae presenoldeb mewn pwyllgorau craffu ar gyfartaledd yn 80% o'r aelodau. Ar hyn o bryd mae gofyn ar aelod annibynnol a Llafur/Rhyddfrydol fod ar gyfartaledd o 2.5 o bwyllgorau'r Cyngor, ac aelod o grŵp Plaid Cymru (tu allan i'r Cabinet) fod ar gyfartaledd o 3 pwyllgor fesul aelod. Gwelwyd yn ddiweddar fod nifer o seddi gweigion yn codi – yn arbennig ar y pwyllgor Iaith.

- Rhoddwyd sylw i'r nifer o Gynghorwyr ar bob pwyllgor fel rhan o'r ystyriaeth i'r trefniadau.

- Yn ogystal, mae'n rhaid ystyried adnoddau swyddogion i gefnogi'r trefniadau - argaeledd prif swyddogion ar gyfer creu adroddiadau a mynychu pwyllgorau craffu (ac ymchwiliadau).

- Mae lle i ystyried ffurf a siâp adroddiadau i'r pwyllgorau craffu, a'r amser sy'n mynd wrth gyflwyno eitem yn hytrach na galluogi'r pwyllgor i symud yn syth i herio.

- Nodwyd rhwystredigaeth ynghylch diffyg dilyniant o'r is-gadair i'r rôl Cadeirydd, gan golli ar ddealltwriaeth o'r maes a gofynion y rôl.

- Mae diffyg dealltwriaeth gan Gynghorwyr ynghylch pryd, sut a lle i godi materion y maent angen atebion iddynt a sut i gael gwybodaeth. Mae'r Prif Weithredwr yn bwriadu mynd i'r afael a'r materion hyn fel a nodwyd eisoes.

<u>Ymgynghori pellach</u>

16. Cyflwynwyd y wybodaeth uchod i gyd-gyfarfod o'r Fforwm Craffu a'r Aelodau Cabinet (05/12/2023) gan ofyn iddynt wedyn drafod gwahanol opsiynau posib, ystyried manteision ac anfanteision pob opswin a dod i gasgliad ar yr argymhelliad ar gyfer y ffordd ymlaen. Opsiwn 1 o'r opsiynau isod – dim newid i'r trefniadau cyfredol - oedd yn cael ei ffafrio ganddynt.

17. Cyflwynwyd safbwynt y cyd-gyfarfod uchod i gyfarfod Tîm Rheoli (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid) ar 06/12/2023. Roedd hyn yn gam allweddol gan fod gan swyddogion hefyd rôl allweddol i alluogi'r trefniadau craffu weithio yn hwylus. Roeddent yn cefnogi Opsiwn 1. Nodwyd yr angen i amlygu

pwysau ar Benaethiaid/Adrannau os oedd newid i'r drefn gyfredol gyda risg bod adnoddau yn cael eu blaenoriaethau i adrodd i'r pwyllgorau craffu yn hytrach na gweithredu ar welliannau.

Opsiynau posib

18. Noder isod yr opsiynau posib a drafodwyd, yn seiliedig ar y trafodaethau sydd wedi eu cynnal wrth adolygu. Noder hefyd y bydd **gweithredu ar y materion a nodwyd yn sgil adolygiad Archwilio Cymru ar gyfer unrhyw opsiwn.**

19. Yr opsiynau:

| **Opsiwn 1 – dim newid i'r trefniadau cyfredol** | |
|---|---|
| + | - |
| Nifer eitemau fesul pwyllgor wedi bod yn eithaf cyson.<br>Trefniadau i weld yn gweithio yn iawn a barn yr archwilwyr allanol yn nodi hynny.<br>Camau gweithredu yn erbyn yr argymhellion am finiogi'r trefniadau ymhellach. | Rhai Cynghorwyr wedi nodi rhwystredigaeth gyda'r trefniadau cyfredol. |

| **Opsiwn 2 – Symud materion corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, gan adael materion Addysg ac Economi mewn un pwyllgor.** | |
|---|---|
| + | - |
| Rhyddhau 'amser' y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i flaenoriaethu oddeutu 2 – 3 eitem ychwanegol mewn blwyddyn. | Pwysau gwaith y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn mynd yn fwy trwm, a bydd angen blaenoriaethu i gadw at 3 eitem fesul cyfarfod. |

| **Opsiwn 3 – Symud materion corfforaethol ac economi i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, gan adael materion Addysg ar eu pennau eu hunain mewn pwyllgor penodol.** | |
|---|---|
| + | - |
| Materion Addysg yn cael sylw haeddiannol (ym marn rhai aelodau) | • Pwysau gwaith ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn drwm iawn (risg a fyddai'n gynaliadwy?)<br>• Pwysau gwaith ar yr adran addysg yn uchel iawn i fwydo pwyllgor penodol<br>• Her a fyddai digon o eitemau i gynnal pwyllgor gyda materion addysg yn unig dros 5 mlynedd heb ail adrodd gormodol? |

| **Opsiwn 4 – sefydlu 4ydd pwyllgor craffu.**<br>Dim newid i'r Pwyllgor Craffu Gofal.<br>Dim newid i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.*<br>Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (gollwng yr elfen corfforaethol)*<br>4ydd pwyllgor i edrych ar faterion Corfforaethol, perfformiad ac iaith (craffu gweithredu'r strategaeth iaith). Er mwyn sicrhau adnoddau digonol i gynnal y 4ydd pwyllgor byddai'n rhaid dileu'r Pwyllgor Iaith. |
|---|

| + | - |
|---|---|
| • Materion Addysg yn cael sylw haeddiannol (ym marn rhai aelodau) NEU<br>• Rhyddhau 'amser' y pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i flaenoriaethu oddeutu 2 – 3 eitem ychwanegol mewn blwyddyn.<br>• Statws uchel i adrodd ar berfformiad a chraffu trefniadau cwrdd â'r safonau a hybu'r iaith | • Dibynnol ar y trefniadau perfformiad<br>• Dim Pwyllgor Iaith penodol gan Gyngor Gwynedd (craffu trwy'r pwyllgor hwn, a mewnbwn strategol trwy'r fforwm iaith sirol)<br>• Adnoddau yn mynd i gefnogi pwyllgorau, llai o amser ar gyfer ymchwiliadau.<br>• Angen ystyriaeth i graffu materion iaith mewn maes unigol (ee addysg, cynllun datblygu lleol) |

* gellid symud yr elfen 'economi' at y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn yr opsiwn hwn, gweler y +/- yn opsiwn 3.

<u>Casgliad</u>

20. Opsiwn 1 oedd yn cael ei ffafrio gan y cyd-gyfarfod o'r Fforwm Craffu a'r Cabinet. Roedd y Tîm Rheoli yn cyd-weld â'u argymhelliad. Cyfarfu aelodau'r Fforwm Craffu ar 11/12/2023 i gloriannu'r holl drafodaethau a'r ymatebion. Yn sgil y gwaith manwl dros y misoedd diwethaf a'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno, mae'r Fforwm Craffu yn cyflwyno Opsiwn 1 – cadw'r trefniadau cyfredol, fel argymhelliad er ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

21. Noder isod sail yr argymhelliad:
    - Derbyniwyd adroddiad positif gan Archwilio Cymru, a bydd mynd i'r afael gyda'r camau gweithredu yn adeiladu ar lwyddiant y trefniadau cyfredol a'u cryfhau, gan wella effeithiolrwydd craffu ymhellach
    - Mae cynnydd da eisoes wedi ei wneud gyda'n trefniadau craffu, a gwelwyd gweithredu ar rai o'r camau eisoes megis miniogi'r argymhellion gan y pwyllgorau a datblygiad y blaen raglen cabinet.
    - Mae profiad wedi dangos bod rhaglenni gwaith yn sefydlogi dros gyfnod o 5 mlynedd
    - Er bod blaenoriaethu materion yn gallu bod yn her, mae'n galluogi craffu ar drawstoriad o faterion ac yn osgoi craffu gormodol ar un pwnc all fod o ddiddordeb penodol i unigolion
    - Bydd datblygu y trefniadau ar gyfer y Fforymau Ardal/sesiynau briffio a chyflwyno gwybodaeth yn galluogi Aelodau i gael gwybodaeth manwl am eu hardal mewn ffyrdd penodol, gan alluogi'r Pwyllgorau Craffu i graffu yn strategol ar faterion penodol

**22. Y Penderfyniad a geisir:**

Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:
- Ystyried y gwaith adolygu manwl sydd wedi digwydd

- Ystyried argymhelliad y Fforwm Craffu, sef, Opsiwn 1 – cadw at y trefniadau craffu cyfredol
- Gwneud argymhelliad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 07/03/2024.